# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 8

DEHONGLI A DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Darpariaethau terfynol*

### 78 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani, neu mewn cysylltiad â hi, neu er mwyn rhoi effaith lawn iddi.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, ddirymu neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani).

(3) Os yw offeryn statudol yn cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn gwneud darpariaeth a all gael yr effaith a grybwyllir yn is-adran (4), ni chaniateir gwneud yr offeryn oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(4) Yr effaith yw, mewn cysylltiad â thrafodiad tir—

(a) bod swm y dreth sydd i'w godi yn fwy na'r swm a fyddai i'w godi oni wneir y rheoliadau, neu

(b) bod treth i'w chodi pan na fyddai treth i'w chodi oni wneir y rheoliadau.

## 79 Rheoliadau

(1) Mewn perthynas ag unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—
- (a) rhaid ei arfer drwy offeryn statudol, a
- (b) mae'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo—
- (a) adran 5(4) (buddiannau esempt);
- (b) adran 18(2) (cydnabyddiaeth drethadwy);
- (c) adran 24(11) (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch);
- (d) adran 30(6) (rhyddhadau);
- (e) adran 33(7) (cwmnïau);
- (f) adran 34(6) (cynlluniau ymddiriedolaeth unedau);
- (g) adran 35(1) (cwmnïau buddsoddi penagored);
- (h) adran 36(8) (cynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth);
- (i) adran 41(2) (partneriaethau);
- (j) adran 42(2) (ymddiriedolaethau);
- (k) adran 46(10) (trothwyon ar gyfer trafodiadau hysbysadwy);
- (l) adran 47(5) (dyddiad dechrau llog taliadau hwyr);
- (m) adran 49(5) (dyddiad dechrau llog taliadau hwyr);
- (n) adran 52(1) (y cyfnod y mae'n rhaid dychwelyd ffurflen dreth o'i fewn);
- (o) adran 64(1) (rheoliadau ynghylch gohirio treth);
- (p) adran 72(10) (eiddo preswyl);
- (q) paragraff 7 o Atodlen 3 (trafodiadau esempt);
- (r) paragraff 27(2) o Atodlen 6 (codi treth ar elfen rent lesoedd preswyl);
- (s) paragraff 32 o'r Atodlen honno (cyfradd disgownt amser ar gyfer lesoedd);
- (t) paragraff 36(1)(b) o'r Atodlen honno (swm penodedig o rent perthnasol);
- (u) paragraff 37 o'r Atodlen honno (pŵer i ddiwygio neu ddiddymu paragraffau 34 i 36);
- (v) paragraff 6(7) o Atodlen 13 (rhyddhad anheddau lluosog: y ganran isaf o dreth sydd i'w phriodoli i anheddau);
- (w) paragraff 3 o Atodlen 17 (rhyddhad caffael: cyfran y dreth a ryddheir).

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon (ac eithrio offeryn a grybwyllir yn is-adran (4)) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Nid yw is-adran (3) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—
- (a) rheoliadau a wneir o dan adran 24(1) neu baragraff 27(4) neu 28(1) o Atodlen 6 (rheoliadau ynghylch cyfraddau treth a bandiau treth);
- (b) rheoliadau a wneir o dan adran 78 y mae is-adran (3) o'r adran honno yn gymwys iddynt.

## 80 Cymhwyso i'r Goron

(1) Mae'r Ddeddf hon yn rhwymo'r Goron.

(2) Ond gweler paragraff 2 o Atodlen 3 (sy'n esemptio trafodiadau tir rhag codi treth arnynt pan fo'r prynwr yn un o gyrff penodedig y Goron).

(3) Ac nid oes unrhyw beth ym Mhennod 2 o Ran 6 (atebolrwydd ar gyfer treth a thalu treth) yn effeithio ar weithrediad adrannau 8 a 9 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37).

(4) Nid yw is-adran (1) yn gwneud y Goron yn agored i'w herlyn am drosedd.

## 81 Dod i rym

(1) Daw'r Rhan hon (ac eithrio adran 76 ac Atodlen 23) i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar unrhyw ddiwrnod y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan adran (2) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

## 82 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.